| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 19 Rhagfyr 2023 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Rhys Thomas **/** Ann Lloyd |
| **Awdur yr Adroddiad** | Hayley Jones, Swyddog Contractau a Chomisiynu |
| **Teitl** | Caffael prosiect cymorth cynnal llety newydd (Atal Digartrefedd) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth am gynnig ar gyfer prosiect cymorth cyfannol sy'n ymwneud â thai sydd wedi'i gynllunio i gefnogi pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych i gynnal eu llety ac atal digartrefedd, a chais am gymeradwyaeth i ddechrau ar y broses gaffael ar gyfer y gwasanaeth hwn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad yn rhan o'r broses dendro ar gyfer prosiect cymorth cynnal llety newydd. Mae'r Ffurflen Gomisiynu (gweler atodiad 1) eisoes wedi'i chymeradwyo gan y partïon perthnasol, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gontractau Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r argymhellion ar gyfer y penderfyniadau a nodir isod:

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo cychwyn y broses gaffael fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 y Ffurflen Gomisiynu.

3.2. Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen ac ystyried yr Asesiad Lles (gweler atodiad 3).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r prosiect hwn yn rhan o'r gwaith o ailgomisiynu gwasanaethau cymorth sy’n ymwneud â thai i gyd-fynd â'n proses o drosi i gynllun Ailgartrefu Cyflym. Fel y nodwyd yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer y Grant Cymorth Tai 2022-2025. Bwriedir cynnal ymarfer ailgomisiynu sylweddol o’r ddarpariaeth cymorth yn ôl yr angen i sicrhau bod cymorth priodol ar gael i bobl ag amrywiaeth o anghenion a nodweddion – sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gymesur ac sydd â’r hyblygrwydd i gynnig cymorth ‘cyffredinol’ ac arbenigol pan fo angen.

4.2. Mae ailgartrefu cyflym llwyddiannus yn dibynnu ar y cymorth amserol a phriodol sydd ar gael sy’n gweddu i ofynion Dinasyddion. Mae tystiolaeth yn awgrymu’n glir bod y rhan fwyaf o bobl sydd wedi profi digartrefedd, yn cynnwys unigolion sydd wedi’u gwthio i’r cyrion yn ddifrifol ac sydd wedi bod yn ddigartref ers amser hir, yn gallu cynnal eu tenantiaethau mewn tai priodol, trwy gael y cymorth cywir lle mae ei angen arnynt.

4.3. Mae'n ofynnol i'r prosiect ddarparu cymorth cyfannol, a phan fo’n briodol, cymorth amlddimensiwn i ddinasyddion yn eu llety eu hunain, cymorth a fydd yn eu galluogi nhw i gynnal eu llety ac atal digartrefedd rhag digwydd eto.

4.4. Nid oes terfyn amser ar y cymorth a bydd angen iddo fod yn hyblyg oherwydd cydnabyddir bod anghenion cymorth pobl yn amrywio ac yn newid dros amser.

4.5. Bydd dinasyddion sy’n cael cymorth gan y prosiect hwn o unrhyw ryw; yn 16 oed a hŷn; yn sengl neu’n rhan o gwpl, a gall fod ganddyn nhw blant dibynnol neu beidio.

4.6. Mae asesiad o’r effaith ar les wedi’i gwblhau ar gyfer y cynnig hwn – gweler atodiad 3.

4.7. Bydd y contract hwn yn cael ei ariannu’n llawn drwy’r Grant Cymorth Tai a geir gan Lywodraeth Cymru.

4.8. Mae’r costau a gwerth am arian wedi’u hamcangyfrif yn seiliedig ar gyfradd feincnodi gyfwerth ag amser llawn y Grant Cymorth Tai; fodd bynnag bydd gwerth

am arian yn cael ei werthuso a bydd yn bosib ei drafod ymhellach yn rhan o’r ymarfer caffael.

4.9. Byddai’r contract am gyfnod o dair blynedd a bydd dewis i’w ymestyn am ddwy flynedd arall, yn amodol ar berfformiad boddhaol, cyllid parhaus a pherthnasedd strategol.

4.10. Bydd y gwasanaeth hwn yn disodli tri gwasanaeth cymorth yn ôl yr angen presennol sy’n cael eu darparu gan dri sefydliad ar wahân.

4.11. Rhagwelir y bydd dull cynghrair ar gyfer y prosiect hwn yn cael ei ddefnyddio, a bydd darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd ag atebolrwydd ar y cyd i roi cymorth wedi'i deilwra i fodloni anghenion unigol. Gan mai gwasanaeth cymorth cyfannol yw hwn, mae’n bwysig bod partneriaethau ag amrywiaeth o arbenigeddau yn cael eu ffurfio i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu bod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion cymorth dinasyddion.

4.12. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Bydd disgwyl i’r darparwr/darparwyr gyflwyno ffurflenni monitro perfformiad chwarterol ac adroddiadau deilliannau bob chwe mis yn unol â'r Fframwaith Canlyniadau GCT. Bydd gan y prosiect hefyd nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol pwrpasol, fel y nodir ym manyleb y prosiect drafft (gweler atodiad 2).

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Tai: Bydd pwyslais amlwg (a mesuryddion perfformiad) ar gefnogi pobl er mwyn osgoi'r perygl o ddigartrefedd.

5.2. Clymu Cymunedau: Un o ofynion allweddol y gwasanaeth yw y bydd yn hygyrch, gan gynnwys ystyriaeth benodol a chreadigedd o ran y gweithgareddau ystyrlon mewn amrywiaeth o leoliadau yn y gymuned ar draws Sir Ddinbych i wella lles pobl.

5.3. Cymunedau Cryf: Meithrin annibyniaeth a gwytnwch yw rhai o amcanion allweddol y prosiect hwn. Trwy amrywiaeth o ddulliau, bydd yn ceisio rhoi’r wybodaeth a’r sgiliau i bobl a chymunedau i’w galluogi nhw i fynd i’r afael â digartrefedd a’i atal a

gwella lles. Bydd gallu mynd i’r afael â phroblemau a gwella lles yn helpu i atal digartrefedd rhag digwydd eto.

5.4. Amgylchedd: Mae’n rhaid darparu Buddion Cymunedol yn rhan o’r prosiect hwn ac yr ydym ni wedi nodi bod gennym ni ddiddordeb arbennig mewn cynigion a fydd yn helpu CSDd i gyflawni ei amcanion Carbon Sero Net.

5.5. Pobl Ifanc: Bydd pobl ifanc 16+ ac oedolion â phlant yn cael eu cynnwys yng nghwmpas cymorth uniongyrchol y prosiect hwn. Rydym ni’n disgwyl y bydd rhywfaint o’r cymorth a’r gweithgareddau hefyd o fudd i blant a phobl ifanc yn rhan o’r aelwyd sy’n cael ei chefnogi.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y prosiect hwn yn cael ei noddi’n llwyr drwy Grant Cymorth Tai Sir Ddinbych sy’n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd y ddarpariaeth yn lleihau'r effaith ar wasanaethau statudol a chostau Gwely a Brecwast cysylltiedig drwy atal digartrefedd.

6.2. Bydd ymgynghoriad â’r Cabinet yn cael ei gynnal o ganlyniad i lefel gwariant y prosiect hwn. Amcangyfrifir mai gwerth y contract blynyddol yw £500,000 ynghyd â bwriad o gynnig contract 3 blynedd a dewis i'w ymestyn am 2 flynedd arall.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Sgoriodd yr asesiad effaith ar gyfer y cynnig hwn 32 allan o 36, gan roi 3 allan o 4 seren. Nodwyd effaith gadarnhaol ar gyfer pob nod lles.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r fanyleb wedi'i datblygu yn dilyn ymgynghori helaeth, gan gynnwys arolwg budd-ddeiliaid wedi'i dargedu. Mae ymatebion yn cynnwys adborth gan ddinasyddion ac amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid allweddol. Mae digwyddiad cwrdd â'r prynwr wedi'i drefnu i'w gynnal ar 8 Rhagfyr 2023.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r cynnig yn rhan o'r strategaeth ar gyfer ymdrin ag effaith ariannol digartrefedd. Caiff costau'r cynllun hwn eu talu'n llawn gan gyllid allanol gan Lywodraeth Cymru ac ar y sail honno caiff y penderfyniad ei gefnogi'n llawn.

## 10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1 Bydd proses dendro gadarn, yn cynnwys gwerthusiad gan banel amrywiol yn sicrhau y byddwn ni hyd eithaf ein gallu yn dyfarnu'r contract hwn i'r darparwr/darparwyr gorau.

10.2 Caiff pob prosiect a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai eu monitro'n rheolaidd i sicrhau y gellir nodi a rhoi sylw i unrhyw broblemau/risgiau cyn gynted â phosibl. Fel prosiect a model darpariaeth newydd, byddwn ni'n gweithio'n agos â'r darparwr/darparwyr i ddysgu a datblygu arferion gorau.

10.3 Mae cymalau yn rhan annatod o bob contract, sy'n caniatáu terfynu neu ddiwygio'r cytundeb (gyda chyfnodau rhybudd priodol) pe bai amodau'r contract yn cael eu torri, gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth Cymru, neu unrhyw sail arall a all godi.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Caiff datblygiad a thendro'r contract hwn ei gefnogi gan y Cyngor dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Ariannol a Rheolau Caffael Contractau Cyngor Sir Ddinbych (rheolau 2.7.1 a 5.5).